WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Rhoi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar Waith – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

Blwyddyn archwilio: 2019

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1496A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, gan gynnwys a15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Philip Jones ac Urvisha Perez.

# Cynnwys

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac mae'n gweithio gyda phartneriaid ar Raglenni Addysg i Gleifion, er y bydd angen iddo gynllunio'n fwy effeithiol i gyflawni'r manteision posibl llawn yn yr hirdymor.


Adroddiad cryno

Cefndir 5

Ffocws y gwaith 5

Prif ganfyddiadau 6

Cyfleoedd ar gyfer gwella 7

Adroddiad manwl

Rhan 1 – Trefniadau corfforaethol 9

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd pellach o ran sicrhau bod ei ddull corfforaethol yn adlewyrchu'r angen am ddatblygu cynaliadwy mewn amgylchedd ariannol sy'n her 9

Rhan 2 – Archwiliad o'r gwaith mewn perthynas â Rhaglenni Addysg i Gleifion a'r cyfraniad a wnânt at iechyd a llesiant gwell ar gyfer y boblogaeth 11

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda phartneriaid i gyflawni'r RhAiG, sydd â ffocws ataliol cryf. Fodd bynnag, bydd angen iddo gynllunio'n fwy effeithiol i wireddu manteision posibl y gwaith hwn dros yr hirdymor 11

Bydd angen i'r Bwrdd iechyd gynllunio'r RhAiG yn fwy effeithiol i sicrhau ei bod yn cyflawni deilliannau hirdymor 12

Mae'r RhAiG yn gwneud atal yn ganolog i'w dull ar gyfer gwella iechyd unigolion a'r boblogaeth 12

Cynllunnir y RhAiG ar sail amlasiantaeth i gyflawni amcanion iechyd a gofal cymdeithasol ond mae cyfleoedd i ehangu'r rhaglen i gynnwys gwasanaethau eraill a chynyddu ei heffaith 13

Mae staff a gwirfoddolwyr yn cydweithio i ddarparu cyrsiau'r RhAiG ond mae cyfle i ehangu'r cydweithio 14

Mae cleifion yn cael eu cynnwys yn y broses o ddylunio a chyflwyno cyrsiau, ac mae staff yn dymuno sicrhau bod pobl ifanc a'r rhai sydd mewn cyflogaeth yn cael eu cynnwys yn fwy 15

Atodiadau

Atodiad 1 – Y Cam: Gwaith mewn perthynas â Rhaglenni Addysg i Gleifion, a'r cyfraniad a wnânt at iechyd a llesiant gwell ar gyfer y boblogaeth 17

Atodiad 2 – Y Pum Ffordd o Weithio 18

Atodiad 3 – Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r cyfleoedd ar gyfer gwella 20

# Adroddiad cryno

## Cefndir

1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) mae'n ofynnol yn statudol i Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) archwilio cyrff cyhoeddus i asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

a. pennu eu hamcanion llesiant; a

b. cymryd camau i'w cyflawni.

2 Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd: '…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.

3 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf flwyddyn cyn pob un o etholiadau'r Cynulliad. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf o'i fath erbyn 2020, cyn etholiad y Cynulliad yn 2021.

4 Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad rhagarweiniol, **Myfyrio ar Flwyddyn Un - Sut mae cyrff cyhoeddus wedi ymateb i ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** Daeth i'r casgliad bod cyrff cyhoeddus yn cefnogi egwyddorion y Ddeddf ac yn cymryd camau i newid y ffordd y maent yn gweithio.

5 Yn ystod 2018 a 2019 mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliadau ar draws y 44 o gyrff a gwmpesir gan y Ddeddf i oleuo'i adroddiad ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol yn 2020. Wrth ddatblygu ein dull o gynnal yr archwiliadau fe wnaethom ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid a gwneud gwaith peilot yn ystod 2017-18. Rydym hefyd wedi cydweithio'n agos gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

6 Roedd y gwaith rhagarweiniol a wnaed gennym yn 2017 yn cynnwys ystyried sut yr oedd cyrff cyhoeddus wedi pennu eu hamcanion llesiant. Prif ffocws ein gwaith yn 2019 yw'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant.

7 Fe gynhaliom ni ein hadolygiad ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd) rhwng mis Mawrth a mis Awst 2019.

## Ffocws y gwaith

8 Fe archwilion ni i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd yn:

- cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio er mwyn gwneud pethau'n wahanol;
- gwreiddio'r egwyddor DC mewn trefniadau a phrosesau craidd; ac yn
- cynnwys a gweithio gyda dinasyddion a rhanddeiliaid i gyflawni ei ddyletswydd llesiant.

9 Fe gynhalion ni adolygiad lefel-uchel o'r modd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddatblygu ei drefniadau corfforaethol ers ein gwaith sylfaenol yn 2017, i oleuo sylwebaeth blwyddyn un yr Archwilydd Cyffredinol yn 2018. Fe wnaethom hefyd archwilio i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio trwy gam sy'n cael ei gymryd i gyflawni amcan llesiant. Yn benodol, fe wnaethom archwilio gwaith mewn perthynas â Rhaglenni Addysg i Gleifion a'r cyfraniad y maent yn ei wneud at well iechyd a llesiant ar gyfer y boblogaeth Atodiad 1).

10 Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r pum ffordd o weithio a ddiffinnir yn y ddogfen **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Yr Hanfodion**. Mae Atodiad 2 yn nodi dangosyddion cadarnhaol ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'n harchwiliad.

Arddangosyn 1: y 'pum ffordd o weithio' a ddiffiniwyd gan Lywodraeth Cymru

| Y Pum Ffordd o Weithio |
|---|
| **Hirdymor –** Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. |
| **Atal –** Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| **Integreiddio –** Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| **Cydweithio –** Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant. |
| **Cynnwys –** Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu. |

11 Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau ynglŷn â dull corfforaethol y Bwrdd Iechyd o wreiddio'r egwyddor DC a sut y mae'r pum ffordd o weithio wedi cael eu cymhwyso trwy ei waith mewn perthynas â 'Rhaglenni Addysg i Gleifion (RhAiG) a'r cyfraniad y maent yn ei wneud at iechyd a llesiant gwella ar gyfer y boblogaeth'.

# Prif ganfyddiadau

12 Canfu ein harchwiliad fod y Bwrdd Iechyd wedi parhau i wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'i fod yn gweithio gyda'i bartneriaid ar RhAiG, er y bydd angen iddo gynllunio'n fwy effeithiol i gyflawni'r manteision posibl llawn yn yr hirdymor.

13 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd pellach o ran sicrhau bod ei ddull corfforaethol yn adlewyrchu'r angen am ddatblygu cynaliadwy mewn amgylchedd ariannol sy'n her; ac

- mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda phartneriaid i gyflawni'r RhAiG, sydd â ffocws ataliol cryf. Fodd bynnag, bydd angen iddo gynllunio'n fwy effeithiol i wireddu manteision posibl y gwaith hwn dros yr hirdymor.

14 Trafodir ein canfyddiadau mewn manylder yn yr adrannau canlynol o'r adroddiad hwn.

# Cyfleoedd ar gyfer gwella

15 Gan bod prif ddarpariaeth y Ddeddf wedi dod i rym yn 2016, mae'n anorfod y bydd angen amser ar gyrff cyhoeddus i roi'r newid hwnnw ar waith yn llawn. Rydym yn cydnabod bod hwn yn gyfnod pontio a bod yr holl gyrff cyhoeddus ar lwybr dysgu.

16 Fe gyflwynon ni ein canfyddiadau mewn gweithdy o gynrychiolwyr allweddol a oedd yn rhan o Raglenni Addysg i Gleifion ym mis Gorffennaf 2019. Yn y gweithdy hwn fe wnaeth y Bwrdd ystyried ein canfyddiadau ac adnabod cyfleoedd ar gyfer gwella mewn perthynas â'r cam, a nodir yn yr adrannau canlynol o'r adroddiad hwn.

17 Mae'r cyfleoedd ar gyfer gwella a nodir yn Arddangosyn 2 wedi cael eu blaenoriaethu, trwy gytundeb gyda'r Bwrdd Iechyd, i gefnogi gwaith parhaus i ddatblygu a gwreiddio'r egwyddorion datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio.

Arddangosyn 2: Cyfleoedd ar gyfer gwella

| Cyfleoedd ar gyfer gwella |
|---|
| **Ffyrdd o weithio** |
| **Hirdymor** |
| I1 Nodi gweledigaeth a chynllun ar gyfer dyfodol y RhAiG er mwyn:<br>• blaenoriaethu datblygiadau yn y dyfodol;<br>• cadarnhau capasiti adnoddau staff presennol; ac<br>• adnabod yr adnoddau y byddai eu hangen i wireddu'r weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth. |
| **Integreiddio** |
| I2 Ystyried budd posibl cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu pwrpasol ar gyfer y RhAiG, sy'n gyson â'r fframwaith cyfathrebu ac ymgysylltu corfforaethol. |
| I3 Gwerthuso'r rhwystrau sy'n atal cleifion rhag mynychu'r RhAiG. |
| I4 Cynnwys dolenni gwe'r RhAIG ar wybodaeth a anfonir gan y tîm ac ar lythyrau'r Bwrdd Iechyd ynglŷn â rhestrau aros a'i lythyrau ateb dros dro. |
| **Cynnwys** |
| I5 Gweithio gyda staff profiad cleifion i gasglu profiadau cleifion sydd wedi symud ymlaen. |
| I6 Chwilio am gyfleoedd i gynnwys pobl iau yn y broses o ddylunio a chyflwyno cyrsiau RhAiG, o bosibl trwy ysgolion a cholegau. |

| Cyfleoedd ar gyfer gwella | |
|---|---|
| I7 | Chwilio am gyfleoedd i gynnwys pobl o oedran gweithio yn y broses o ddylunio a chyflwyno cyrsiau RhAiG, o bosibl trwy gyflogwyr lleol. |

18 Bydd ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd yn cael ei fewnosod fel Atodiad 3 unwaith y bydd wedi cael ei ddatblygu a'i gytuno. Bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru ar ôl cael ei ystyried gan y Bwrdd neu un o bwyllgorau perthnasol y Bwrdd.

# Adroddiad manwl

## Rhan 1 – Trefniadau corfforaethol

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd pellach o ran sicrhau bod ei ddull corfforaethol yn adlewyrchu'r angen am ddatblygu cynaliadwy mewn amgylchedd ariannol sy'n her

19 Cyn archwilio gwaith mewn perthynas â'r RhAiG a'r cyfraniad y maent yn ei wneud at iechyd a llesiant gwell ar gyfer y boblogaeth, fe wnaethom archwilio sut y mae'r trefniadau corfforaethol o gymorth i gyflawni'r gwaith hwnnw.

20 Ni wnaeth y Bwrdd Iechyd newid ei amcanion llesiant yn ystod 2017-18 ac fe barhaodd i ddefnyddio'r un amcanion yn ystod 2018-19. Barnwyd eu bod yn ddigon eang i gyfleu ei gyfeiriad teithio ac i adlewyrchu ei ymrwymiad i wella iechyd a llesiant y boblogaeth.

21 Yn ystod 2018-19, roedd y Bwrdd Iechyd yn rhan o ymarfer sylweddol i ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn datblygu fframwaith ar gyfer iechyd a llesiant. Canlyniad yr ymgynghoriad oedd **Cenedlaethau'r Dyfodol yn Byw'n Dda**, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2018. Wedi hynny cyhoeddodd y Bwrdd Iechyd 'Cenedlaethau'r Dyfodol yn Byw'n Dda: Fframwaith Iechyd a Llesiant ar gyfer Hywel Dda'. Mae'n nodi sut y mae saith maes newid y Bwrdd Iechyd yn cyfrannu at ei amcanion mwy hirdymor a mae wedi'i fwriadu i ddangos ei ymrwymiad i egwyddorion y Ddeddf yn ei fusnes pob dydd.

22 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod yr angen i adolygu a mireinio ei amcanion llesiant, o ystyried bod ei strategaeth iechyd a llesiant newydd wedi cael ei chyhoeddi. Mae'n bwriadu cyhoeddi amcanion llesiant wedi'u diweddaru ar gyfer 2019-20 ar yr un pryd ag y bydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol ar yr Amcanion Llesiant 2018-19.

23 Roeddem yn arbennig o awyddus i ddeall a yw'r Bwrdd Iechyd yn ymateb i'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio trwy:

- wneud pethau'n wahanol i gyflawni newid;
- datblygu trefniadau a phrosesau craidd; a
- chynnwys dinasyddion a rhanddeiliaid.

24 Caiff ein canfyddiadau eu nodi yn Arddangosyn 3.

Arddangosyn 3: Gwreiddio'r egwyddor DC a'r pum ffordd o weithio

| **Gwneud pethau'n wahanol i gyflawni newid** |
| --- |
| Mae'r Bwrdd Iechyd, ar y cyd â'i bartneriaid, yn gosod y sylfeini ar gyfer dull a fydd yn eu galluogi i wneud pethau'n wahanol a chyda'i gilydd. Mae'r dull hwn yn cydnabod yr angen i bawb feddwl am yr hir dymor.<br>• Dywedodd staff fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn dod yn rhan arferol o drafodaethau yng ngwaith y Bwrdd Iechyd, a'i bod yn newid ymddygiad. Mae'r amcanion llesiant a'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n darparu sylfaen ar gyfer y strategaeth leol ar gyfer iechyd y cyhoedd ac maent yn dylanwadu ar gyflawni'r holl brosiectau ym maes iechyd y cyhoedd.<br>• Cyflwynwyd y fframwaith iechyd a llesiant a chynllun ymgysylltu sy'n cyd-fynd ag ef i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2019. Mae'r strategaeth llesiant yn cefnogi newid mawr yn y dull o ymdrin ag iechyd y cyhoedd trwy gysoni gwaith y tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) lleol ac fe'i goleuwyd gan ymarfer i ymgysylltu â'r cyhoedd dros gyfnod o 18 mis.<br>• Mae'r Strategaeth Iechyd a Gofal yn cael ei datblygu gan ddefnyddio model cymdeithasol ar gyfer iechyd a chan gyfeirio at ddeddfwriaeth allweddol, gan gynnwys y Ddeddf. Ei nod yw taro cydbwysedd priodol rhwng dyfodol gofal eilaidd, yr angen i sicrhau cydnerthedd yn y gymuned, a thrafodaethau priodol ynglŷn â'r sylfaen asedau ar draws y ddau.<br>• Mae'r Cyfarwyddwr Meddygol yn arwain ar ddatblygu'r Strategaeth Iechyd a Gofal. Mae'n cydnabod bod meddwl ar sail systemau cyfan am iechyd a llesiant y boblogaeth yn hanfodol, ac y bydd hyn weithiau'n golygu bod angen ildio rheolaeth ac awdurdod. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod her fawr cyllido'r newid i ffyrdd newydd o weithio, yn enwedig o ystyried ei statws adfer ariannol ar hyn o bryd.<br>• Mae'r Ddeddf yn diffinio gwaith BGCau. Dywedodd staff ei fod yn llywio ymgysylltu ac yn helpu i ddiffinio rhaglenni gwaith a ffurf strwythurau. Dywedodd staff hefyd ei bod yn dylanwadu ar waith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh), trwy fod yn ysgogydd tuag at agenda gyffredin[1] a nodau cyffredin ar lefel ranbarthol. Cynhaliodd y BGCau a'r BPRh ei gydgyfarfod cyntaf yn ddiweddar i ddechrau'r broses o benderfynu beth allan ei wneud 'unwaith gyda'i gilydd'. |
| **Datblygu trefniadau a phrosesau craidd** |
| Mae trefniadau a phrosesau craidd yn esblygu i adlewyrchu'r angen am ddull cynaliadwy o ymdrin â phob agwedd ar ddarparu gwasanaethau.<br>• Mae gwaith y Pwyllgor Cynllunio Busnes, Perfformiad a Sicrwydd yn seiliedig ar amcanion llesiant y Bwrdd Iechyd ac yn cael ei arwain gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy.<br>• Mae'r Bwrdd yn cael ei friffio'n rheolaidd ar faterion sy'n ymwneud â gweithredu ei amcanion llesiant.<br>• Fe wnaeth y tîm gweithredol gyfryngu'r ffurflen hunanarfarnu i Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ym mis Chwefror 2019. Roedd yn seiliedig ar gynnydd mewn perthynas â'i amcanion llesiant a'r pum ffordd o weithio. Fe gyflwynon nhw ddarlun cytbwys o ran yr hyn a oedd wedi cael ei gyflawni a ble y mae angen cynnydd pellach.<br>• Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio tuag at gyfuno adnoddau Swyddfa ei Raglen Drawsnewid yn 'rhithwir' gydag Uned Gydweithio Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru. Mae'r broses hon wedi cael ymrwymiad y rhanddeiliaid i lwyddo a bydd yn helpu partneriaid i osgoi dyblygu wrth gydweithio. |

[1] Cyfeiriad at ddatblygu'r Strategaeth Iechyd a Gofal, y cyfeirir ati'n nes ymlaen, yw hwn.

| Cynnwys dinasyddion a rhanddeiliaid |
| --- |
| Mae’r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd o ran datblygu ei ddull o sicrhau bod dinasyddion a rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys yn effeithiol.<br>• Mae arweinwyr yn y Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau newid diwylliannol i gyflawni newid strwythurol. Maent wedi dysgu o brofiad ac maent yn defnyddio dull cadarnhaol o ymgysylltu â dinasyddion, a danategir gan drylwyredd rhaglenni, gan gynnwys defnyddio dadansoddeg data i ddarparu sail dystiolaeth.<br>• Ceir amgylchedd rhanddeiliaid lleol cymhleth. Mae’r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid eraill trwy’r BPRh i uno trefniadau llywodraethu rhanddeiliaid yn un fframwaith i hwyluso cydweithio agosach. Dywedodd staff fod y gwaith trawsnewid a’r RhAiG yn gweithio ochr yn ochr â’i gilydd i ryw raddau a bod angen eu halinio’n well.<br>• Roedd gwaith cynnar ar y Strategaeth Iechyd a Gofal yn cynnwys ffocws cryf ar ymgysylltu â staff ac mae hyn wedi profi’n her gan bod gan grwpiau staff wahanol agendâu. Serch hynny, bu cynnydd da o ran ennyn ymgysylltiad uwch glinigwyr, ac ymgysylltiad arbennig o gryf â chynrychiolwyr staff nyrsio, ffarmacoleg a nyrsio cymunedol.<br>• Cyfeiriodd staff at y gwersi pwysig sydd wedi deillio o brosesau ymgysylltu ffurfiol. Fe wnaethant ganolbwyntio’u hymdrechion ar y rhai anoddaf i’w cyrraedd ac estyn y gwersi hynny ar gyfer y boblogaeth gyfan.<br>• Ar adeg ein gwaith maes cynhaliwyd digwyddiad staff a rhanddeiliaid i lansio strategaeth llesiant y Bwrdd Iechyd. |

# Rhan 2 – Archwiliad o’r gwaith mewn perthynas â Rhaglenni Addysg i Gleifion a’r cyfraniad a wnânt at iechyd a llesiant gwell ar gyfer y boblogaeth

## Mae’r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda phartneriaid i gyflawni’r RhAiG, sydd â ffocws ataliol cryf. Fodd bynnag, bydd angen iddo gynllunio’n fwy effeithiol i wireddu manteision posibl y gwaith hwn dros yr hirdymor

25 Fe archwilion ni waith y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â’r RhAiG a’r cyfraniad a wnânt at iechyd a llesiant gwell ar gyfer y boblogaeth. Mae’r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 o’r pwys mwyaf ar gyfer newid. I alluogi hyn i ddigwydd, mae’n defnyddio’r RhAiG i gynnig rhaglen gynyddol o gyfleoedd addysg ar gyfer cleifion, sy’n aml yn cael eu harwain gan gymheiriaid. Maent yn seiliedig ar fodel hunan-effeithiolrwydd sy’n grymuso pobl i gymryd rheolaeth ac i wneud newidiadau i’w ffordd o fyw a ffordd o fyw eu teuluoedd. Ceir rhagor o wybodaeth am y cam yn Atodiad 1.

## Bydd angen i’r Bwrdd iechyd gynllunio’r RhAiG yn fwy effeithiol i sicrhau ei bod yn cyflawni deilliannau hirdymor

26 Fe chwilion ni am dystiolaeth o’r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am anghenion cyfredol a hirdymor a’r heriau a chyfleoedd cysylltiedig;
- cynllunio dros raddfa amser briodol;
- adnoddau a ddyrennir i sicrhau manteision hirdymor; a
- monitro ac adolygu priodol.

27 Canfuom y cryfderau canlynol:

- datblygir y rhaglenni mewn ymateb i anghenion iechyd y boblogaeth yn awr ac yn y dyfodol.
- er bod terfyn amser i’r rhaglenni, maent wedi’u bwriadu i arwain at ddeilliannau gwell o ran iechyd a llesiant unigolion yn ddiweddarach yn eu hoes. Er enghraifft, gall addysg ar ddiabetes helpu i leihau’r risg o gael torri rhan o’u corff i ffwrdd yn y dyfodol.
- mae’r rhaglenni’n helpu i fynd i’r afael ag amcanion ehangach o ran iechyd a llesiant y boblogaeth yn yr hirdymor .

28 Cyfleoedd ar gyfer gwella:

- pennu gweledigaeth a chynllun ar gyfer dyfodol y RhAiG er mwyn:
  - blaenoriaethu datblygiadau yn y dyfodol;
  - cadarnhau capasiti adnoddau staff presennol a chysylltu hynny ag anghenion yn y dyfodol
  - nodi adnoddau eraill y byddai eu hangen i wireddu’r weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth.

## Mae’r RhAiG yn gwneud atal yn ganolog i’w dull o wella iechyd unigolion a’r boblogaeth

29 Fe chwilion ni am dystiolaeth o’r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am natur y broblem a’r math o broblem y gallai’r cam helpu i’w hatal rhag digwydd neu fynd yn waeth;
- adnoddau a ddyrennir i sicrhau y bydd manteision ataliol yn cael eu cyflawni; a
- gwaith i fonitro ac adolygu pa mor effeithiol yw’r cam o ran atal problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth.

30 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae’r cyrsiau’n seiliedig ar ddealltwriaeth seiliedig-ar-dystiolaeth am achosion a chanlyniadau’r cyflyrau y maent yn mynd i’r afael â hwy;
- mae’r dull wedi’i fwriadu i atal ymyriadau mwy difrifol a chostus yn y dyfodol;

- mae'r RhAiG yn seiliedig ar fynediad agored i bawb[2] at y cyrsiau fel eu bod yn hygyrch i bawb; ac
- mae cyrsiau unigol a ddarperir yn cael eu hailadrodd mewn amryw leoliadau ledled ardal y Bwrdd Iechyd, i gynyddu hygyrchedd a'r potensial ar gyfer gwella iechyd y boblogaeth.

31 Cyfleoedd ar gyfer gwella:

- awgrymodd cynrychiolwyr a ddaeth i'r gweithdy y gallai cyrhaeddiad y RhAiG gael ei hestyn trwy ddarparu trefniadau sgrinio mewn gweithleoedd ac ysgolion, i helpu i adnabod a hysbysu'r bobl hynny a allai gael budd ohonynt;
- byddai gwneud iechyd a llesiant yn rhan orfodol o hyfforddiant staff yn hybu llesiant staff ac yn codi eu hymwybyddiaeth am y cyfleoedd RhAiG sy'n agored i gleifion; a
- soniodd cynrychiolwyr a ddaeth i'r gweithdy y gellid trefnu bod rhaglenni hunanreoli ar gael i bawb, er mwyn annog unigolion i gymryd cyfrifoldeb personol am atal afiechyd yn yr hirdymor.

## Cynllunnir y RhAiG ar sail amlasiantaeth i gyflawni amcanion iechyd a gofal cymdeithasol ond mae cyfleoedd i ehangu'r rhaglen i gynnwys gwasanaethau eraill a chynyddu ei heffaith

32 Fe chwilion ni am dystiolaeth o ystyried y canlynol:

- sut y gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant a blaenoriaethau ehangach y Cyngor; a
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

33 Canfuom y cryfderau canlynol:

- bu staff iechyd a gofal cymdeithasol yn cydweithio i ddylunio rhaglen sy'n cyflawni eu priod amcanion.
- mae'r ddewislen RhAiG yn darparu un pwynt mynediad ar gyfer rhaglen sy'n mynd i'r afael ag amcanion llesiant gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- mantais bosibl a nodwyd yw bod pobl yn gallu dychwelyd i'r gwaith a chael cyflogaeth newydd o ganlyniad i'r wybodaeth a'r cymhelliant y maent yn ei gael trwy'r RhAiG. Mae'r effaith ar yr agweddau ehangach ar lesiant yn gwneud y RhAiG yn ddeniadol i randdeiliaid eraill a rhanddeiliaid cyflogwyr.

[2] Y diffiniad o fynediad agored i bawb a ddiffinnir yma yw darparu cyrsiau ar gyfer unrhyw un a allai gael budd ohonynt, ac mewn lleoliadau ledled ardal y Bwrdd Iechyd i helpu i sicrhau bod y rhai sy'n dymuno mynychu'n gallu gwneud hynny.

- trwy rymuso pobl trwy wella'u gwybodaeth am eu hiechyd, mae'r RhAiG yn lleihau'r baich ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gan helpu rhanddeiliaid i gyflawni eu hamcanion llesiant.

34 Cyfleoedd ar gyfer gwella:

- mae potensial i ehangu mynediad at y ddewislen RhAiG:
  - trwy ei gwneud yn agored atgyfeiriadau o ffynonellau ychwanegol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol;
  - trwy gynnwys staff RhAiG yn y gwaith i ddatblygu'r model clinigol, i roi'r cyfle iddynt ddylanwadu ar ddyluniad gwasanaethau yn y dyfodol; a hefyd
  - trwy gynnwys staff RhAiG yn orfodol yn y broses o ddatblygu llwybrau clinigol.
- awgrymodd cynrychiolwyr a ddaeth i'r gweithdy y gellid datblygu'r system hunangyfeirio at y RhAiG ar gyfer staff y Bwrdd Iechyd, er mwyn:
  - ei bod yn ategu, neu'n ddewis yn lle, iechyd galwedigaethol a ffynonellau cymorth eraill;
  - trefnu ei bod ar gael trwy e-ddysgu; a
  - ei chynnwys ar y system Cofnodion Staff Electronig.
- awgrymodd cynrychiolwyr a ddaeth i'r gweithdy y gellid cynnwys cyflwyniad i RhAiG fel rhan o raglen sefydlu'r Bwrdd Iechyd ar gyfer staff ac yn y rhaglen hyfforddiant safonol ar gyfer staff.

## Mae staff a gwirfoddolwyr yn cydweithio i ddarparu cyrsiau'r RhAiG ond mae cyfle i ehangu'r cydweithio

35 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Bwrdd Iechyd:

- wedi ystyried sut y gallai weithio gydag eraill i gyflawni'r cam (i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion llesiant);
- yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni'r cam; ac
- yn monitro ac yn adolygu a yw cydweithio'n ei helpu ef neu'n helpu ei randdeiliaid i gyflawni amcanion llesiant.

36 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae gweithwyr iechyd proffesiynol a gwirfoddolwyr o'r gymuned leol yn cydweithio i ddarparu cyrsiau'r RhAiG ac fe ddwedon nhw fod hyn wedi profi'n effeithiol iawn ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr; ac
- mae'r cyrsiau'n cael eu darparu mewn modd amlasiantaeth, amlddisgyblaethol.

37 Cyfleoedd ar gyfer gwella:

- soniodd cynrychiolwyr a ddaeth i'r gweithdy y gallai staff a gweithwyr cymorth gofal iechyd ar draws gofal sylfaenol a chymunedol ddod yn diwtoriaid RhAiG a helpu i ddarparu cyrsiau;
- archwilio cyfleoedd pellach i gydweithio'n fwy eang; er enghraifft, gyda staff gwasanaethau hamdden, y sector celfyddydau, grwpiau a rhaglenni garddio; a
- chydweithio'n fwy eang gyda gweithwyr iechyd proffesiynol eraill i'w helpu i gyfleu manteision y dull RhAiG i'r rhai a allai gael budd ohonynt.

## Mae cleifion yn cael eu cynnwys yn y broses o ddylunio a chyflwyno cyrsiau, ac mae staff yn dymuno sicrhau bod pobl ifanc a'r rhai sydd mewn cyflogaeth yn cael eu cynnwys yn fwy

38 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Bwrdd Iechyd:

- wedi adnabod pwy y mae angen iddo'u cynnwys wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi mynd ati mewn ffordd effeithiol i gynnwys rhanddeiliaid wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi defnyddio canlyniadau cynnwys pobl i ddylanwadu ar ddatblygu a chyflawni'r cam; ac
- wedi ceisio dysgu gwersi a gwella'i ddull o gynnwys.

39 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae gwirfoddolwyr yn cael eu recriwtio i helpu i addysgu ac i ddarparu eu safbwynt personol; er enghraifft, mewn perthynas ag iechyd meddwl, anabledd, camddefnyddio sylweddau, a hunaniaeth o ran rhywedd.
- mae darparu cyrsiau mewn nifer fath o fusnesau wedi bod yn ffordd ddefnyddiol o estyn addysg a'r broses o rymuso unigolion trwy'r gymuned.

40 Cyfleoedd ar gyfer gwella:

- gweithio gyda'r tîm profiad cleifion i fynd ati'n systematig i gasglu gwybodaeth am brofiadau cleifion:
  - i'w defnyddio i annog pobl i fynychu cyrsiau RhAiG;
  - fel deunydd i'w gynnwys mewn cyrsiau RhAiG; ac
  - i ategu achosion busnes RhAiG yn y dyfodol.
- cynnwys pobl ifanc yn y broses o ddatblygu a darparu cyrsiau RhAiG, o bosibl trwy ysgolion a cholegau;
- dod o hyd i ffyrdd o gynnwys pobl mewn cyflogaeth a fyddai fel arall yn gallu ei chael yn anodd cyfrannu eu sgiliau i ddatblygu a darparu cyrsiau RhAiG;
- cynnwys staff y Bwrdd Iechyd o ran hyrwyddo negeseuon yn eu cymunedau ynglŷn â sut i gymryd cyfrifoldeb personol am fyw'n iach;

- gwneud ‘Pum Ffordd at Lesiant’ y Bwrdd Iechyd yn rhan o ddysgu gorfodol ar gyfer staff; a
- darparu rhagor o gyfleoedd i staff ac eraill arsylwi ar gyrsiau RhAiG.

# Atodiad 1

## Y Cam: Gwaith mewn perthynas â Rhaglenni Addysg i Gleifion, a'r cyfraniad a wnânt at iechyd a llesiant gwell ar gyfer y boblogaeth

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o'r pwys mwyaf ar gyfer newid. I alluogi hyn i ddigwydd, mae Rhaglenni Addysg i Gleifion (RhAiG) yn cynnig rhaglen gynyddol o gyfleoedd addysg ar gyfer cleifion, sy'n aml yn cael eu harwain gan gymheiriaid. Maent yn seiliedig ar fodel hunan-effeithiolrwydd sy'n grymuso pobl i gymryd rheolaeth ac i wneud newidiadau i'w ffordd o fyw a ffordd o fyw eu teuluoedd.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio gydag amryw wasanaethau gofal iechyd i newid y llwybr cleifion ar gyfer atgyfeiriadau rheolaidd trwy gynnig addysg lefel-isel i annog cleifion i arfer hunanofal. Gall cleifion fynd ymlaen i raeadru hunanofal i'w teuluoedd. Er enghraifft, mae'r cynllun Camau Iach podiatreg yn cynnig cyngor ynghylch torri ewinedd i atal ewinedd traed sy'n tyfu i'r byw ac yn annog pobl i beidio â rhannu offer gofalu am ewinedd er mwyn atal heintiau ffyngaidd yn yr ewinedd.

Mae'r rhaglen Pum Ffordd at Lesiant yn cael ei chyflwyno i ystod o sefydliadau mawr yn ardal y Bwrdd Iechyd. Mae'n cysylltu llesiant lefel-isel megis ymwybyddiaeth ofalgar/cyfathrebu da/dysgu i alluogi pobl i fyfyrio ynghylch eu llesiant eu hunain a llesiant y rhai o'u cwmpas. Gall newidiadau bach i lesiant wneud newidiadau sylweddol i iechyd ar y cyfan. Trwy fynd â'r model hwn i mewn i ysgolion a cholegau gall helpu i raeadru llesiant i genedlaethau'r dyfodol. Mae ap hunanofal y Bwrdd Iechyd yn cydnabod y bu newidiadau sylweddol yn y ffordd y mae pobl ifanc yn dewis rhyngweithio â gwasanaethau. Mae'n ei gwneud yn bosibl archwilio cwestiynau sensitif a rheolaidd ynghylch gofal iechyd.

Mae'r RhAiG yn gweithio gyda nifer o feysydd clinigol megis canser, podiatreg ac ymataliaeth i sicrhau ein bod yn cynnwys addysg gadarn i gleifion er mwyn grymuso cleifion i wneud newidiadau cynnil a all arwain at lai o ymyriadau meddygol. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig asesiadau 'Gwybod eich Risg' ar gyfer y rhai sy'n dymuno osgoi Diabetes Math 2 trwy newid eu lefel risg. Mae 'Bwyd Doeth am Byth' yn rhaglen sy'n addysgu pobl i wneud dewisiadau synhwyrol ynglŷn â bwyd i leihau Mynegai Màs y Corff ac osgoi datblygu Diabetes Math 2. Mae'r dulliau hyn yn aml yn arwain at newidiadau yn arferion bwyta teuluoedd, gan leihau'r potensial i bobl iau ddatblygu gordewdra.

# Atodiad 2

## Y Pum Ffordd o Weithio

Mae'r tabl isod yn nodi 'dangosyddion cadarnhaol' ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio i helpu i oleuo ein hasesiadau wrth ystyried i ba raddau y gall cyrff fod yn cymhwyso'r egwyddor DC. Nid ydym yn bwriadu i'r dangosyddion gael eu defnyddio fel 'rhestr wirio'. Rydym wedi'u defnyddio fel 'dangosyddion' i'n helpu i ddod i gasgliadau, yn hytrach na 'phenderfynyddion' sy'n dynodi i ba raddau y mae corff yn gweithredu yn unol â'r egwyddor DC wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

Arddangosyn 4: dangosyddion cadarnhaol o'r pum ffordd o weithio

| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio hirdymor yn llawn?** |
|---|
| • Ceir dealltwriaeth glir am yr hyn y mae 'hirdymor' yn ei olygu yng nghyd-destun y Ddeddf.<br>• Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni'r amcan(ion) llesiant a chyfrannu at eu gweledigaeth hirdymor.<br>• Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni manteision yn y tymor byr neu ganolig, y ceir cydbwysedd rhyngddynt a'r effaith dros yr hirdymor (yng nghyd-destun y prosiect).<br>• Maent wedi dylunio'r cam yn seiliedig ar ddealltwriaeth soffistigedig am yr angen a phwysau yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol.<br>• O ganlyniad, ceir dealltwriaeth gynhwysfawr am risgiau a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol.<br>• Mae adnoddau wedi cael eu dyrannu i sicrhau bod manteision hirdymor yn ogystal â manteision byrdymor yn cael eu cyflawni.<br>• Ceir ffocws ar gyflawni deilliannau, gyda cherrig milltir/camau cynnydd wedi'u nodi lle bydd deilliannau'n cael eu cyflawni dros yr hirdymor.<br>• Maent yn agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai helpu i ddwyn manteision dros yr hirdymor.<br>• Maent yn gwerthfawrogi gwybodaeth ac yn mynd ar drywydd dulliau seiliedig ar dystiolaeth. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio ataliol yn llawn?** |
| • Mae'r corff yn ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel bod modd mynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.<br>• Mae'r corff yn ystyried heriau o safbwynt systemau cyfan, gan gydnabod a gwerthfawrogi'r manteision hirdymor y gallant eu dwyn i bobl a lleoedd.<br>• Mae'r corff yn dyrannu adnoddau i gamau ataliol sy'n debygol o gyfrannu at ddeilliannau gwell a defnydd gwell o adnoddau dros y tymor hwy, hyd yn oed lle gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion byrdymor.<br>• Ceir trefniadau penderfynu ac atebolrwydd sy'n cydnabod gwerth camau ataliol ac yn derbyn gostyngiadau byrdymor mewn perfformiad ac adnoddau wrth fynd ar drywydd gwelliannau a ragwelir mewn deilliannau ac yn y defnydd o adnoddau. |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn defnyddio dull 'integredig'? |
| --- |
| • Mae unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad at wireddu'r weledigaeth a'r amcanion llesiant.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn y mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn ei wneud ac yn mynd ati mewn modd rhagweithiol i geisio cyfleoedd i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Caiff hyn ei efelychu yn eu gwaith gyda chyrff cyhoeddus eraill.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y dibyniaethau traws-sefydliadol sy'n rhan o wireddu'r uchelgais a chyflawni'r amcanion.<br>• Ceir diwylliant agored lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu.<br>• Ceir dealltwriaeth sydd wedi datblygu'n dda am y modd y mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni'n effeithio ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus.<br>• Mae unigolion yn gweithio mewn modd rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i wneud y cyfraniad mwyaf posibl ar draws y nodau llesiant a lleihau effeithiau negyddol i'r eithaf.<br>• Mae trefniadau llywodraethu, strwythurau a phrosesau'n cefnogi hyn, ac felly hefyd ymddygiadau. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithio'n effeithiol?** |
| • Mae'r corff yn canolbwyntio ar le, cymuned a deilliannau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.<br>• Mae gan y corff ddealltwriaeth dda am amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i lywio gweithgarwch cydweithredol.<br>• Mae gan y corff berthnasoedd cadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau y gall yr holl bartneriaid eu gwneud.<br>• Mae'r corff yn ceisio canfod prosesau cyffredin a ffyrdd cyffredin o weithio, lle y bo'n briodol. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol?** |
| • Deall pwy y mae angen eu cynnwys a pham.<br>• Myfyrio pa mor dda y mae'r anghenion a'r heriau a wynebir gan y bobl hynny'n cael eu deall ar hyn o bryd.<br>• Gweithio mewn modd cydgynhyrchiol, gan weithio gyda rhanddeiliaid i ddylunio a chyflawni.<br>• Ystyried barn rhanddeiliaid fel ffynhonnell wybodaeth hanfodol a fydd yn helpu i gyflawni deilliannau gwell.<br>• Sicrhau bod yr amrywiaeth lawn o randdeiliaid yn cael eu cynrychioli a'u bod yn gallu cymryd rhan.<br>• Bod â pherthnasoedd aeddfed, seiliedig ar ymddiriedaeth â'i randdeiliaid lle ceir deialog barhaus a lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.<br>• Ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol a ddefnyddir i helpu i ddysgu a gwella. |

# Atodiad 3

## Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i gyfleoedd ar gyfer gwella

[Bydd ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd yn cael ei fewnosod yma. Bydd yr atodiad hwn yn rhan o'r adroddiad terfynol a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru unwaith y bydd yr adroddiad wedi cael ei ystyried gan y Bwrdd neu un o bwyllgorau perthnasol y Bwrdd.]

Arddangosyn 5: ymateb y rheolwyr i gyfleoedd ar gyfer gwella

| Cyfleoedd ar gyfer gwella | Wedi'i dderbyn (Do neu Naddo) | Camau gweithredu, cyfrifoldebau, amserlenni |
|---|---|---|
| **Hirdymor**<br>I1 Nodi gweledigaeth a chynllun ar gyfer dyfodol y RhAiG er mwyn:<br>• blaenoriaethu datblygiadau yn y dyfodol;<br>• cadarnhau capasiti adnoddau staff presennol; ac<br>• adnabod yr adnoddau y byddai eu hangen i wireddu'r weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth. | Do | Mae cynllun newydd i fynd i'r afael ag adsefydlu aml-symudedd yn cael ei ddatblygu sy'n cynnwys y RhAiG. Bydd adnoddau staffio a datblygiadau ar gyfer y RhAiG yn y dyfodol yn cael eu cynnwys fel rhan o hyn. Bydd gweithdy'n cael ei gynnal ym mis Tachwedd 2019 i gychwyn gweithgareddau ymgysylltu gyda golwg ar gwblhau'r cynllun yn 2020/21.<br>**Arweinydd: Pennaeth Strategol Gofal Cymunedol a Chyflyrau Hirdymor** |
| **Integreiddio**<br>I2 Ystyried budd posibl cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu pwrpasol ar gyfer y RhAiG, sy'n gyson â'r fframwaith cyfathrebu ac ymgysylltu corfforaethol. | Do | Bydd y RhAiG yn gweithio gyda'r Tîm Cyfathrebu i ddatblygu cyfleoedd i hyrwyddo'r RhAiG ymhellach mewn ystod o ffyrdd gan gynnwys Facebook a Twitter erbyn mis Ebrill 2020.<br>**Arweinydd: Pennaeth Strategol Gofal Cymunedol a Chyflyrau Hirdymor** |
| I3 Gwerthuso'r rhwystrau sy'n atal cleifion rhag mynychu'r RhAiG. | Do | Mae cynnig am gyllid i wneud ymchwil benodol i ddeall y rhwystrau i ymgysylltu a manteisio ar y rhaglen yn cael ei ddatblygu. Y nod fyddai cwblhau'r ymchwil erbyn mis Chwefror 2021. **Arweinydd: Pennaeth Strategol Gofal Cymunedol a Chyflyrau Hirdymor** |

| Cyfleoedd ar gyfer gwella | Wedi'i dderbyn (Do neu Naddo) | Camau gweithredu, cyfrifoldebau, amserlenni |
|---|---|---|
| | | Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd i ddatblygu rhaglen bwrpasol i adlewyrchu anghenion diwylliannol ac ieithyddol er mwyn rhoi cefnogaeth bellach i'r Rhaglen Ailsefydlu Pobl o Syria syu'Agored i Niwed. Mae cynnig yn cael ei ddatblygu i geisio cyllid i gefnogi'r rhaglen arloesol hon trwy'r Gronfa Hunanreoli a Llesiant. Tachwedd 2019 yw'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynigion ac os bydd yn llwyddiannus bydd y gwaith yn cael ei gwblhau erbyn mis Ebrill 2020.<br>**Arweinydd: Pennaeth Strategol Gofal Cymunedol a Chyflyrau Hirdymor a'r Pennaeth Partneriaethau Strategol, Amrywiaeth a Chynhwysiant** |
| I4 Cynnwys dolenni gwe'r RhAIG ar wybodaeth a anfonir gan y tîm ac ar lythyrau'r Bwrdd Iechyd ynglŷn â rhestrau aros a'i lythyrau ateb dros dro. | Do | Mae'r RhAiG yn cael eu cynrychioli ar brosiect gan y Tîm Cyfathrebu Gwella Ansawdd a fydd yn ymgorffori'r cam gweithredu hwn. Bydd y prosiect hwn yn cael ei gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2020.<br>**Arweinydd: Pennaeth Strategol Gofal Cymunedol a Chyflyrau Hirdymor** |
| **Cynnwys**<br>I5 Gweithio gyda staff profiad cleifion i gasglu profiadau cleifion sydd wedi symud ymlaen. | Do | Mae'r Tîm RhAiG yn gweithio gyda'r Tîm Profiad Cleifion i ddatblygu offeryn adborth Teulu a Ffrindiau. Mae cynlluniau ar waith i gynnal digwyddiad diweddaru blynyddol ym mhob sir y gwahoddir holl gyfranogwyr blaenorol rhaglenni i'w fynychu. Mae'r Tîm RhAiG yn parhau i gasglu storïau cyfranogwyr a thiwtoriaid er mwyn hyrwyddo manteision mynychu'r rhaglenni. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo'n barhaus trwy gydol 2019/20.<br>**Arweinydd: Pennaeth Strategol Gofal Cymunedol a Chyflyrau Hirdymor** |
| I6 Chwilio am gyfleoedd i gynnwys pobl iau yn y broses o ddylunio a chyflwyno cyrsiau RhAiG, o bosibl trwy ysgolion a cholegau. | Do | Mae'r RhAiG yn bwriadu dechrau gweithio gydag ysgolion chweched dosbarth a lleoliadau eraill ochr yn ochr â Bagloriaeth Cymru. I ddechrau bydd y Tîm yn gweithio gydag Ysgol Bro Dinefwr i ddatblygu'r fenter hon erbyn mis Ebrill 2020.<br>**Arweinydd: Pennaeth Strategol Gofal Cymunedol a Chyflyrau Hirdymor** |
| I7 Chwilio am gyfleoedd i gynnwys pobl o oedran gweithio yn y broses o ddylunio a chyflwyno cyrsiau RhAiG, o bosibl trwy gyflogwyr lleol. | Do | Mae'r Tîm RhAiG yn cyflwyno'r rhaglen 5 Ffordd at Lesiant i ystod o gyflogwyr lleol ac mae hyn yn gyfle i rannu gwybodaeth am ehangder y rhaglenni eraill sy'n cael eu cynnig. Mae enghreifftiau o gydweithio diweddar yn cynnwys: |

| Cyfleoedd ar gyfer gwella | Wedi'i dderbyn (Do neu Naddo) | Camau gweithredu, cyfrifoldebau, amserlenni |
|---|---|---|
| | | cyflwyno i Ddiwrnodau HMS mewn Ysgolion, Folly Farm, TRJ Construction, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth Cymru, Heddlu Dyfed Powys, Castell Howell Foods, Dragon. Mae'r holl raglenni'n cael eu gwerthuso a defnyddir adborth i oleuo'r broses o ddylunio a chyflawni rhaglenni yn y dyfodol.<br>**Cam Gweithredu Wedi'i Gwblhau a'r dull wedi ymwreiddio** |

Byddwn yn monitro cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran rhoi'r camau gweithredu hyn ar waith, ac i ba raddau y maent yn mynd i'r afael â'r materion yr ydym wedi'u hadnabod yn ein canfyddiadau, trwy ein rhaglenni gwaith ar gyfer y dyfodol.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru